# PWYLLGOR CYNLLUNIO 12fed o Ionawr 2026

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards
Is-gadeirydd: Cynghorydd Huw Rowlands

**Y Cynghorwyr:**
Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, Gareth A Roberts a John Pughe Roberts

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Y Cynghorydd Gareth Williams

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Glyn Gruffudd (Uwch Swyddog Cynllunio), Dafydd Jones (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Pughe

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Cai Larsen (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 (C25/0462/02/LL) ar y rhaglen
- Y Cynghorydd Gareth Williams (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.4 (C25/0311/30/AC) ar y rhaglen

## 3. MATERION BRYS

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Swyddog Monitro fyddai'n cyhoeddi canlyniad pleidleisiau'r ceisiadau.

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 8fed o Ragfyr 2025 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i nodi bod y Swyddog Monitro wedi ymateb i sylw gan y Cynghorydd Gareth Williams (eitem 5.1 C25/0418/30/LL) am fanylion ymweliad safle, gan nodi, er bod yr Aelod wedi cael gwybod am yr ymweliad safle, nad oedd yr amser wedi ei rannu.

## 5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i'w datblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**5.1 CAIS RHIF C25/0428/14/LL**
**Mona, 4 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1RN**

Newid defnydd swyddfeydd i 5 fflat preswyl, yn cynnwys estyniad ar y cefn. Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a gosod drws i storfa gwastraff.

a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio y gohiriwyd y cais ym Mhwyllgor Cynllunio Rhagfyr 2025 er mwyn derbyn mwy o wybodaeth a thystiolaeth o'r angen am yr unedau yn unol â gofynion polisi TAI 8. Cyfeiriwyd at ddatganiad pellach oedd wedi ei gyflwyno yn egluro'r cynllun gan yr ymgeisydd, ynghyd a sylwadau Uned Strategol Tai oedd yn cadarnhau'r angen am unedau fforddiadwy.

Eglurwyd bod yr adeilad yn un o faint sylweddol wedi ei leoli ar gornel y stryd fawr o fewn ffin datblygu Tref Caernarfon ac Ardal Cadwraeth Safle Treftadaeth y Byd. Nid oedd bwriad newid edrychiad blaen nac ochr yr adeilad sy'n amlwg o'r stryd fawr.

Cydnabuwyd bod yr ymgeisydd yn bwriadu defnyddio'r unedau fel math penodol o lety ar gyfer sicrhau unedau addas a diogel ar gyfer pobl sydd ar hyn o bryd yn byw mewn llety argyfwng anaddas o fewn Caernarfon yn barod; byddai'r bwriad gydag amod tai fforddiadwy yn sicrhau hyblygrwydd ar gyfer diwallu anghenion llety parhaol trigolion yr ardal i'r dyfodol. Nodwyd fod yr holl unedau yn cael eu cynnig fel unedau fforddiadwy gyda'u maint yn unol â safonau Llywodraeth Cymru (WDQR / WHQS) ar gyfer unedau fforddiadwy. Cyfeiriwyd at sylwadau Uned Strategol Tai oedd yn cadarnhau fod y bwriad yn cyfarch angen wedi ei brofi am unedau 1 a 2 ystafell wely i bobl drwy Wynedd sydd yn dymuno byw yng Nghaernarfon. O ganlyniad, ystyriwyd fod y bwriad yn cynnwys cyfiawnhad am y cynnig o ran y math, nifer a maint o unedau a gynigir ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisi TAI 8 o ran cymysgedd tai, ynghyd â gofynion o fewn polisi TAI 15 yn ddarostyngedig i amod unedau fforddiadwy i sicrhau fod y bwriad yn paratoi unedau fforddiadwy am byth. Cadarnhawyd bod capasiti digonol o fewn cyflenwad dangosol Caernarfon ar gyfer y datblygiad yma ar hyn o bryd.

Byddai'r gwaith addasu yn cynnwys newidiadau mewnol, ac adeiladu estyniad 3 llawr o fewn iard gefn yr eiddo ac felly ni fyddai'n effeithio ar edrychiad na chymeriad yr adeilad sy'n amlwg i'r cyhoedd na chael effaith weledol andwyol ar Safle Treftadaeth y Byd na'r Ardal Gadwraeth. Byddai'r gwaith yn cynnwys gosod ffenestri llawr daear a ffenestri llawr cyntaf ar gyfer ystafelloedd gwely cefn a chadarnhawyd y byddai'r ffenestri llawr cyntaf i'w gosod gyda gwydr wedi eu cymylu - bydd modd gosod amod cynllunio er mwyn sicrhau hyn. Nodwyd hefyd fod bwriad gosod amod cynllunio ar gyfer cyflwyno manylion a lleoliad y pwmp gwres ffynhonnell aer. O ganlyniad, ystyriwyd na fyddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol ar drigolion cyfagos.

Yng nghyd-destun materion trafnidiaeth a mynediad, nodwyd bod yr eiddo wedi ei leoli yng nghanol y Dref ble mae gofodau parcio cerbydau ar y strydoedd ac o fewn meysydd parcio cyhoeddus. O ran materion bioamrywiaeth cyfeiriwyd at y gwelliannau oedd wedi eu cynnig ac adroddwyd bod y datganiad iaith a gyflwynwyd yn datgan effaith niwtral i bositif ar yr iaith.

Ystyriwyd fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau lleol a chenedlaethol a'r swyddogion yn argymell caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i osod amodau perthnasol

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;

- Yn unol â dymuniad y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf, bu iddo gael trafodaeth adeiladol gyda'r Pennaeth Tai ac Eiddo a'i fod yn diolch iddi am roi eglurhad clir am

y rhesymeg tu ôl i'r cais ac amlinelliad o raddfa'r her i ymateb i ddigartrefedd yng Ngwynedd.

- Ei fod yn cydymdeimlo yn fawr gyda'r sefyllfa. Ei fod yn ymwybodol o nifer sylweddol o etholwyr yn ei ward mewn sefyllfaoedd bregus o ran diogelwch eu tenantiaethau. Ei fod yn cydnabod fod y maes yn un anodd gyda phwysau sylweddol ar y gwasanaeth.
- Y byddai posibilrwydd y byddai'r fflatiau ar gael i'w rhentu ar delerau tai cymdeithasol, os a phan fydd y galw am lety digartrefedd yn dod i ben - yn croesawu hyn yn fawr - dim gwrthwynebiad i'r cais pe byddai'r bwriad yn bennaf i'w ddefnyddio ar gyfer tai rhent cymdeithasol parhaol
- Pryder parhaus am y nifer fach o wardiau sy'n ysgwyddo llawer mwy o'r baich i fynd i'r afael ag argyfwng digartrefedd y Sir. Rhain yn bennaf yn wardiau canol trefi sydd yn aml eisoes yn wynebu heriau sylweddol yn sgil tlodi ac amddifadedd
- O safbwynt cynllunio a chynaladwyedd cymunedol, pwysig gweithio tuag at gymunedau cytbwys lle nad yw'r un ardal yn cael eu gorlethu na'i chymesur gan fath penodol o ddarpariaeth
- Yn cymryd y cyfle i dynnu sylw at yr anghymesuredd daearyddol presennol o ran pwy a lle sydd yn ysgwyddo'r baich, ac yn annog yr AdranTai ac Eiddo, wrth symud ymlaen, i ystyried datblygu strategaeth gliriach i wasgaru'r ddarpariaeth mewn modd tecach a chynaliadwy ar draws y Sir

c) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod yr angen wedi ei brofi
- Yn ddiolchgar am y wybodaeth ychwanegol
- Yn gobeithio bydd y sefyllfa ddigartrefedd yn gwella i'r dyfodol

**PENDERFYNWYD: Caniatáu gydag amodau**

1. **5 mlynedd.**
2. **Unol a chynlluniau.**
3. **Cytuno manylion unedau pwmp gwres ffynhonnell**
4. **Defnydd C3 yn unig**
5. **Amod Tai Fforddiadwy**
6. **Gwelliannau Bioamrywiaeth**
7. **Oriau gwaith**
8. **Rhaid i'r 3 ffenestr llawr cyntaf yn yr estyniad bwriedig fod wedi eu cymylu**

Nodyn Bioamrywiaeth
Nodyn Llythyr Cyfoeth Naturiol Cymru

**5.2 CAIS RHIF C25/0266/18/LL**
**Tir yn Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen, Caernarfon, LL55 3AN**

Caniatâd cynllunio dros dro am gyfnod o 40 mlynedd i godi System Storio Ynni (ESS), ynghyd â seilwaith cysylltiedig, mynediad i'r safle, tirlunio a gwaith atodol ar dir yn Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen, Caernarfon, LL55 3AN.

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr

Roedd rhai o’r Aelodau wedi ymweld â’r safle 12-01-26

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio bod y math o system yn storio ynni dros ben o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy pan fo galw isel am drydan yna mae'n rhyddhau'r trydan fel mae’r galw yn codi.

Gyda’r Aelodau Lleol yn methu a bod yn bresennol, cyflwynodd y Swyddog ymatebion a dderbyniwyd ganddynt drwy e-bost;

Cyng. Menna Baines:

‘‘Mae rhan fechan o’r datblygiad yn fy ward i gan fod is-orsaf drydan Pentir o fewn ei ffiniau. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i’r nod o fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac mae’n ymddangos i mi fod y cynllun hwn yn gydnaws efo’r nod a’r egwyddor honno, a hynny am y byddai’n ffurfio rhan o rwydwaith cefnogol y gellid ei ddefnyddio yn ôl yr angen wrth reoli’r cyflenwad o ynni adnewyddol. Rwyf yn nodi pryderon a godwyd am ‘orddatblygiad’ o gynlluniau o’r fath yn yr ardal ond mae’n ymddangos bod lleoli’r datblygiad penodol yma ger yr is-orsaf yn ffordd o fanteisio ar y seilwaith sydd yno’n barod yn hytrach na chreu galw am fwy o geblau neu waith trwm pellach. O’r safbwynt hwnnw mae’r lleoliad yn gwneud synnwyr. O ran yr effaith weledol, mae’n ymddangos na fydd effaith rhy fawr, yn enwedig o gofio bod cyfarpar yr is-orsaf yno’n barod, a hefyd o ystyried mai dim ond yn rhannol y bydd y datblygiad i’w weld wrth i’r gwaith plannu arfaethedig aeddfedu dros amser gan sgrinio’r safle yn well. Rwyf hefyd yn nodi pryderon eraill a godwyd, yn enwedig y rhai am golli bioamrywiaeth ac am beryglu rhan o’r dreftadaeth archeolegol, ond rydw i’n derbyn bod amodau cadarn ynghlwm â’r argymhelliad o ganiatáu’r datblygiad. O sicrhau bod y datblygiad yn cadw at yr amodau hyn a’r rhai eraill sy’n cael eu rhestru, nid oes gennyf wrthwynebiad i’r cais”.

Cyng. Elwyn Jones:

“Hoffwn ddatgan fy ngwrthwynebiad i’r cais ynghyd a gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Pentir anfonais fel Clerc y Cyngor hwnnw i’r Adran Gynllunio fis Ebrill diwethaf.

Bu i’r Cwmni yma ein cyfarfod yn rhithiol yng Nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wrth iddynt geisio ein darbwyllo bod y system yma yn fanteisiol i’r Grid Cenedlaethol i ddiwallu diffygion y grid. Wrth eu holi ynghyn diogelwch, sŵn, cyflogaeth, a pham na fyddai'r Grid Cenedlaethol eu hunain yn buddsoddi mewn cyfarpar tebyg ni chafwyd ateb o unrhyw fath dim ond waffl. Nid oedd ganddynt ateb ynglŷn â’r ffordd roeddynt wedi ymgynghori gan iddynt ymffrostio dosbarthu rhai cannoedd o bamffledi gwybodaeth er nad oedd neb yn y cymunedau agosaf wedi derbyn unrhyw wybodaeth. Hawdd yw datgan wedyn nad oes gwrthwynebiad trigolion lleol.

‘Rwyf yn falch mai argymhelliad i wrthod mae swyddogion Gwynedd wedi ei ddatgan ar gyfer C25/0277/18/LL    Land South of B4547 Seion / Pentir LL55 3AN a braf fyddai bod wedi darllen yr un argymhelliad i’r cais hwn.

Hoffwn nodi fy ngwrthwynebiad fel a ganlyn

1. Mae’n or-ddatblygiad yng nghefn gwlad ag safle hwn ar ardal o ddiddordeb hanesyddol lleol
2. Fydd eu tirweddu ddim yn cael ei wireddu yn effeithiol am o leiaf 15 mlynedd ac felly wrth gwrs yn weledol am 15 mlynedd

3. Tra yn amheus o wir fanteision y system storio ynni nid yw mewn unrhyw ffordd yn hwb i'r economi lleol a DIM cyflogaeth
4. Mae yn ffaith na ellir diffodd tan batri lithiwm - ond ei adael i losgi allan
5. Dim ymgynghoriad lleol wedi digwydd - nid yw gosod darn o bapur ar bolyn ar ochr ffordd brysur lle nad oes fawr neb yn ei gerdded na thŷ o fewn 200 metr yn ymgynghori nac yn rhoi cyfle i drigolion lleol fynegi barn

Er gwybodaeth cefais lythyr Cymraeg a Saesneg o gefnogaeth i'r fenter ar e-bost heddiw gan Net Zero. Gan ei fod wedi ei anfon o Lundain mi wnes eu ffonio i'w holi am y safle - wydda fo affliw o ddim! Efallai mai yn Llundain mae'r Cwmni yma wedi bod yn ymgynghori.

Gwrthwynebwch a/neu dewch draw am ymweliad safle"

Eglurwyd bod safle'r cais yn cynnwys 4.6ha o dir pori garw sydd wedi ei ddosbarthu fel tir graddfa 3 a 5 mewn lleoliad yng nghefn gwlad agored y tu allan i unrhyw ffin datblygu gyfredol ac ar dir cyfochrog i ffordd fynediad is-orsaf drydan bresennol Pentir sydd oddeutu 150m i'r gogledd o ran agosaf y safle. Saif o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig ac yn rhannol o fewn Parth Llifogydd B fel y'i nodir yn y Mapiau Perygl Llifogydd. Mynegwyd bod coetir cyfagos i'r de-ddwyrain, "Coed Tŷ'n Llwyn" a "Choed Tyddyn Morgan" tua'r gogledd, yn "Safleoedd Bywyd Gwyllt Rhanbarthol" cydnabyddedig.

Adroddwyd, fel rhan o'r cais cyflwynwyd nifer o ddogfennau ac adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth arbenigol gan gynnwys adroddiad ymgynghori cyn cyflwyno cais yn unol â gofynion Deddf Gynllunio Gwlad a Thref gan fod y bwriad yn ddatblygiad a ddiffinnir yn ddatblygiad mawr ac yn mesur mwy nag 1 ha.

Tynnwyd sylw at ymateb y Gwasanaeth Bioamrywiaeth i'r cais, oedd wedi datgan eu bod yn gwrthwynebu'r bwriad gan nad oedd mesurau lliniaru digonol ar gyfer colli cynefinoedd ac nad oedd y datblygiad yn darparu gwelliant i fioamrywiaeth. Er hynny, roeddynt yn cydnabod bod y cais yn ymgorffori llawer o fesurau ar gyfer lleihau effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth a chyfeiriwyd at y nifer o asesiadau ecolegol oedd wedi eu cynnal ar y safle a bod mesurau cyfatebol i'r tir a'r golled o diroedd yn cael eu cynnig. Nodwyd bod cyfathrebu cyson wedi ei gynnal rhwng ecolegydd y datblygwr a'r uned bioamrywiaeth ac er bod pryderon yr Uned Bioamrywiaeth yn parhau, pwysleisiwyd y materion canlynol:

- Byddai caniatáu yn galluogi rheolaeth o'r safle trwy amodau cynllunio at ddibenion ecolegol gan nad oes amddiffyniad o'r fath ar gyfer y safle presennol
- Gellid cytuno ar y camau manwl sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn ôl yr angen a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol yn nodi mesurau fydd yn amddiffyn, cadw ac, yn y pen draw, yn adfer a gwella'r cynefinoedd a gedwir o fewn ffin y llinell goch a'r ardal lliniaru
- Oherwydd cyfyngder ac argaeledd tiroedd eraill, nid oes digon o le oherwydd yr angen am hawddfraint 80 m ar y llinellau pŵer foltedd uchel uwchben yn yr ardal sy'n lleihau'r arwynebedd o dir sydd ar gael ar gyfer yr unedau storio batri. Yn ogystal nid oedd unrhyw ganiatâd gan y tirfeddiannwr i'r ymgeisydd ddatblygu safle amgen.
- Byddai 0.09ha ychwanegol o gynefin naturiol yn cael ei reoli'n benodol ar gyfer gwella bioamrywiaeth o fewn yr ardal gyfagos.

Cyfeiriwyd at bryderon Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y cynnig ond mynegwyd eu bod yn fodlon derbyn y datblygiad yn ddarostyngedig i amodau fyddai'n sicrhau gweithrediad y datblygiad yn unol â'r mesurau a gwelliannau a argymhellwyd. Ategwyd nad oedd y safle wedi ei warchod yn ffurfiol mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd o safbwynt bioamrywiaeth ac

oherwydd hynny, nid oedd unrhyw reolaeth ffurfiol i atal gwerth bioamrywiaeth y safle gael ei golli'n llwyr trwy newidiadau mewn rheolaeth amaethyddol na fyddai angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer er enghraifft.

Ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn cynnig cynnydd sylweddol ym maint y tir a fyddai'n cael ei reoli'n benodol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a, thrwy gytuno cynllun rheolaeth briodol, gellid sicrhau na fydd niwed arwyddocaol i fioamrywiaeth yn deillio o'r datblygiad ac y gellid sicrhau camau a fyddai'n cynyddu gwerth bioamrywiaeth y safle yn y tymor hir.

Ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol ag yn bodloni gofynion y polisïau perthnasol. Roedd y swyddogion yn argymell caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y sylwadau canlynol;

- Bod y bwriad yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030, a tharged Llywodraeth Cymru
- Bod safleoedd storio ynni yn hanfodol i gefnogi ynni adnewyddadwy - byddai'r system yn storio ynni dros ben o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy pan fo galw isel am drydan ac yna yn rhyddhau'r trydan fel mae'r galw yn codi.
- Yn storio digon ar gyfer 323,000 o gartrefi - mwy na holl gartrefi Gogledd Cymru
- Y seilwaith presennol yn berffaith i ymateb i'r targedau lleol a chenedlaethol
- Bod y bwriad yn saff a safonol a chynllun diogelwch wedi ei gyflwyno gyda'r cais
- Nad oedd unrhyw wrthwynebiadau gan y Gwasanaeth Tan ac Achub
- Bod cysylltiad grid wedi'i gytuno gydag Is-orsaf Pentir - hyn yn lleihau effeithiau gosod ceblau tanddaearol ac felly'r effaith weledol yn isel ar y dirwedd oherwydd ei agosatrwydd at yr is-orsaf
- Bod trafodaethau cyn cyflwyno cais ac ymgynghoriadau lleol wedi eu cynnal yn unol â gofynion ymarfer da
- Bod y bwriad yn cefnogi dosbarthiad lleol gan ynni SP Energy Network a dim dosbarthiad ledled y DU - hyn yn fuddiol i gartrefi a busnesau lleol
- Bod Cronfa Budd Cymunedol i'w sefydlu o £100,000 gyda thrafodaethau gyda'r gymuned ar sut i'w ddosbarthu
- Yn gynllun glan, yn wyrdd, yn gynllun ynni da, yn saff, fyddai'n cyfarch targedau
- Y buddion yn gorbwyso'r niwed

c) Cynigwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

ch) Mewn ymateb i gwestiwn, pam bod 40 mlynedd yn cael ei ystyried yn 'gyfnod dros dro', nodwyd mai dyma yw bwriad y cais yma a dyma'r cyfnod amser perthnasol i'r math yma o gais.

**PENDERFYNWYD**:

**1. 5 mlynedd.**
**2. Yn unol â'r cynlluniau/manylion a gyflwynwyd gyda'r cais.**
**3. Cydymffurfio â'r cynllun tirweddu ynghyd a gwaith cynnal a chadw i'r dyfodol.**
**4. Cydymffurfiaeth gydag argymhellion y dogfennau Asesiad Effaith Ecolegol, Asesiad Effaith Coedyddiaeth, Nodyn Technegol Ecolegol a'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd.**
**5. Cydymffurfiaeth gyda'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd.**
**6. Cyfyngu amseroedd adeiladu**

7. **Gosod uchafswm ar gyfer allyriadau sŵn**
8. **Cytuno ar fesurau monitro sŵn**
9. **Amod i sicrhau camau priodol os darganfyddir llygredd annisgwyl.**
10. **Cytuno gyda gorffeniadau allanol y strwythurau.**
11. **Sicrhau enw Cymraeg ac arwyddion dwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r Gymraeg.**
12. **Cytuno rhaglen waith Archeolegol**
13. **Cyflwyno Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol diwygiedig (i gynnwys rheolaeth o'r cyswllt gyda chyfarpar SP Manweb)**
14. **Cyflwyno Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg ddiwygiedig i gymryd i ystyriaeth sylwadau'r Uned Bioamrywiaeth**
15. **Rhaid adfer y safle i'w gyflwr a gytunir gyda'r Awdurdod Cynllunio wedi i'r cyfnod gweithredol y datblygiad ddod i ben**

Nodiadau:
Uned Dŵr ac Amgylchedd
Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
Dŵr Cymru
SP Manweb

**5.3 Cais Rhif C25/0277/18/LL**
**Tir i'r De o'r B4547 Seion / Pentir, Llanddeiniolen, LL55 3AN**

Datblygiad arfaethedig o system storio ynni batri, seilwaith cysylltiedig, mynediad a thirlunio

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr

Roedd rhai o'r Aelodau wedi ymweld â'r safle 12-01-26

a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio bod cynlluniau fel hyn yn storio ynni dros ben o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a'r grid pan fo galw isel am drydan, gan ryddhau'r trydan yn ddiweddarach pan fo galw ac felly yn helpu darparu diogelwch cyflenwad ynni.

Eglurwyd bod y safle yn cynnwys 1.95ha o dir pori garw wedi ei leoli gyferbyn ag is-orsaf drydan presennol Pentir mewn cefn gwlad agored y tu allan i unrhyw ffin datblygu, ac o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig; y tir wedi'i ddosbarthu'n 3a a 5 yn y Map Dosbarthiadau Tir Amaethyddol rhagfynegol ar gyfer Cymru.

Mynegwyd bod yr ymgeisydd wedi egluro bod y cynnig ar gyfer caniatâd cynllunio dros dro, am gyfnod o 40 mlynedd, ac yn dilyn y cyfnod hwnnw bydd y cyfarpar yn cael ei dynnu o'r safle a'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr presennol. Cadarnhawyd bod yr ymgeisydd wedi ymgymryd ag ymgynghoriad cyn cyflwyno cais gan fod y bwriad yn ddatblygiad dros 1ha ac felly'n cael ei ddiffinio fel un mawr gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd y datblygiad ei sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol ac effaith debygol y cynnig ar yr amgylchedd, ac wedi defnyddio'r meini prawf penodol, ni ystyriwyd bod effaith y datblygiad ar yr amgylchedd yn annigonol i gyfiawnhau cyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'r cais.

Wrth asesu effaith weledol y bwriad, ac er cydnabod bod proses rhesymegol wedi digwydd wrth ddewis y safle, nodwyd fod y safle wedi ei wahanu o'r is orsaf gan briffordd sylweddol ac nad oedd sgrinio presennol arwyddocaol i'r lleoliad. Mynegwyd pryder y gall y datblygiad fod yn niweidiol i harddwch naturiol yr ardal, yn enwedig wrth edrych dros y safle o'r gogledd orllewin, lle byddai'r safle yn tynnu oddi ar y golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri. Cyflwynwyd Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol gyda'r cais yn cynnwys asesiad o'r effaith weledol o sawl cyfeiriad. Roedd casgliadau'r gwaith hwnnw, er yn nodi byddai rhai effeithiau lleol arwyddocaol, mai effaith cyfyngedig niweidiol bychan byddai'r datblygiad yn ei gael ar y dirwedd yn gyffredinol. Yn ogystal â'r sgrinio presennol a gynigiwyd gan ffurfiant y tir a thyfiant, byddai'r datblygiad yn cynnwys nodweddion tirweddu, megis rhes o goed, a fydd yn helpu gydag integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd o'i amgylch. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y nodweddion datblygedig presennol, oedd yn cynnwys y peilonau sydd yn union gerllaw, a fyddai'n lleihau ei effaith ar y dirwedd. Nodwyd hefyd y byddai'r datblygiad yn effeithio ar ardal gyfyngedig yn unig ac fe fyddai'n wirdroadwy.

Nodwyd bod y safle o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 4 - Caernarfon - Arfordir a Llwyfandir o fewn Strategaeth Tirwedd Gwynedd (2012) a bod y Strategaeth hynny yn nodi y dylai pob cynnig datblygu yn yr ardal barchu natur y patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun. Gyda'r safle hefyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, ni ystyriwyd bod ymestyn datblygiad diwydiannol sylweddol i dir glas agored yn briodol yn yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, byddai ymestyn tiroedd datblygedig i'r de o'r briffordd yn amharu'n sylweddol ar batrwm datblygu presennol y dirwedd, yn enwedig wrth ystyried fod pob datblygiad arall sy'n gysylltiedig ag Is-orsaf Pentir wedi eu cyfyngu i'r tiroedd i'r gogledd o'r ffordd, lle mae cryn sgrinio presennol gan goed a ffurfiant y tir.

Ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar y dirwedd ac ar fwynderau gweledol yr ardal o ganlyniad i'w leoliad ar wahân i ddatblygiadau eraill lleol. O ganlyniad, nid oedd y cynnig yn cwrdd â maen prawf 2 Polisi ADN 3, na pholisïau ISA 1, PCYFF 2 a PCYFF 4 fel maent yn ystyried amddiffyn mwynderau gweledol yr ardal.

Nodwyd bod asiant y cais yn dymuno gohirio'r cais er mwyn cynnal trafodaeth bellach ynglŷn â'r gwrthwynebiad uchod ynghyd a materion eraill, ond mynegwyd bod asesiad o'r safle yn cadarnhau fod ei leoliad yn golygu na ystyriwyd y gallai fod yn dderbyniol o ran ei effaith weledol.

Yng nghyd-destun materion Trafnidiaeth, Ecoleg a Sŵn er bod modd goresgyn rhai o'r materion hyn, ni fyddai yn newid argymhelliad y cais. Nodwyd nad oedd y cynllun diwygiedig sy'n cynnig mesurau lliniaru bioamrywiaeth wedi ei gyflwyno'n ffurfiol fel rhan o'r cais, ond yn hytrach wedi ei gyflwyno i'r Uned Bioamrywiaeth am drafodaeth.

O ran y cynlluniau diwygiedig ar gyfer y mynediad newydd, nodwyd bod sylwadau ychwanegol wedi eu derbyn gan yr Uned Drafnidiaeth mewn ymateb i'r cynlluniau diwygiedig yn cadarnhau, o ystyried bod nifer y cerbydau sy'n gwasanaethu'r safle yn gymharol isel, fod y ddarpariaeth welededd yn dderbyniol ac ar sail hynny dilëwyd rheswm gwrthod rhif 2. Yn ogystal, nodwyd bod cadarnhad wedi ei dderbyn gan Dŵr Cymru yn tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl ac yn cynnig sylwadau a nodiadau cyngor yn unig.

Ystyriwyd, er bod egwyddor y math hwn o ddatblygiad yn gallu bod yn dderbyniol yng nghefn gwlad am resymau ymarferol yn ymwneud ag effeithlonrwydd y system ddosbarthu trydan, nid yw'r datblygiad penodol hwn yn dderbyniol oherwydd ei effaith weledol debygol ar sail ei leoliad. Byddai'r datblygiad diwydiannol ei naws ar safle tir glas agored yng nghefn gwlad yn mynd tu hwnt i ffiniau naturiol datblygiadau sy'n gysylltiedig ag Is-orsaf Pentir. O ganlyniad, ystyriwyd fod y bwriad yn annerbyniol ac felly argymhellwyd gwrthod y cais.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y sylwadau canlynol;
   - Bod yr ymgeisydd o dan yr argraff bod yr holl faterion wedi eu cyfarch, ond wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, yn gweld bod materion megis tirweddu ac effeithiau gweledol heb eu cyfarch yn llawn
   - Nad oedd yr ymgeisydd wedi cael amser digonol i ymateb i bryderon y swyddogion am faterion tirwedd ac effeithiau gweledol ac roedd yn awyddus iawn i drafod ymhellach.
   - Nid oedd sylwadau tirweddwr proffeshiynol wedi eu cynnwys yn asesiad y swyddogion
   - Bod modd ymchwilio i bosibiliadau i liniaru'r effeithiau gweledol a chryfhau'r sgrinio
   - Be byddai'r pryderon wedi eu rhannu yn gynharach gellid bod wedi cynnal trafodaeth i edrych yn fanylach ar addasiadau pellach. Ni chafodd y cyfle ei gynnig – nid yw hyn yn ymarfer cynllunio da
   - Gan nad yw'r materion hyn wedi eu trafod yn llawn, yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried gohirio'r penderfyniad fel bod modd cynnal trafadoaethau pellach.

c) Nododd y Swyddog Monitro nad oedd gan yr Aelodau Lleol sylwadau i'w cynnig ar y cais

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd gohirio'r cais fel bod modd i'r ymgeisydd gael cyfle i ystyried pryderon y swyddogion am yr effeithiau gweledol

Pleidleisiwyd ar y cynnig. Disgynnodd y cynnig

Cynigwyd ac eiliwyd gwrthod y cais yn unol â'r argymhelliad

**PENDERFYNWYD:**

**Rheswm:**

**Byddai'r datblygiad hwn yn niweidiol i'r dirwedd gan y byddai'n cyflwyno elfen ddiwydiannol ei naws i safle tir glas agored mewn lleoliad amlwg a fyddai ei weld o fewn golygfeydd nodedig o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cais felly'n groes i bolisïau ISA 1, ADN 3, PCYFF 1, PCYFF 2 a PCYFF 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn fel y maent yn ymwneud â sicrhau bod datblygiadau yn gweddu i'w lleoliad.**

**5.4 CAIS RHIF Rhif C25/0311/30/AC**
**Bodernabwy, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BH**

Cais adran 73 i newid amod 7 ar ganiatâd C24/0011/30/AM i gytuno ar osodiad newydd fel y dangosir ar gynllun rhif 3196:24:8 ynghyd a newid amodau 5 a 10 ar ganiatâd

C24/0011/30/AM i gytuno manylion tirlunio ac edrychiad yn unol gyda chynlluniau rhif 3196:24:8 a 3196:24:7.

a) Amlygodd y Pennaeth Cynorthwyol bod cais wedi dod i law gan asiant yr ymgeisydd yn gofyn am ohiriad fel bod modd cael mwy o amser i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Ategodd bod y cais am ohiriad yn un rhesymol.

b) Cynigiwyd ac eiliwyd gohirio'r cais

Rheswm: Rhoi cyfle i'r asiant gyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn datrys rhai elfennau technegol o'r cais.

**PENDERFYNWYD**

**Gohirio'r cais er mwyn rhoi cyfle i'r asiant gyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn datrys rhai elfennau technegol o'r cais (erbyn cyfarfod 23/03/26)**

.

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 14:00

**CADEIRYDD**